**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2000

**Y Cefndir**

Mae Deddf Iechyd 1999 yn sefydlu'r Comisiwn Gwella Iechyd.

Mae hwn yn gorff Cymru a Lloegr. Ei swyddogaeth yw paratoi cyngor a gwybodaeth, a chynnal adolygiadau ac ymchwiliadau, mewn perthynas â gweithredu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae'r rheoliadau presennol yn cynnwys darpariaeth yngln â'r dull y dylai'r Comisiwn weithredu. Dyma'r agweddau penodol y mae'r Rheoliadau'n ymwneud â hwy -

Rhaglen waith flynyddol y Comisiwn.

Darparu cyngor a gwybodaeth gan y Comisiwn.

Cynnal adolygiadau mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau NHS ac Awdurdodau Iechyd.

Cynnal adolygiadau mewn perthynas â mathau penodol o ofal iechyd.

Cynnal ymchwiliadau.

Hawliau mynediad i dir ac adeiladau a chael gafael ar wybodaeth.

Mae'r rheoliadau hyn wedi'u gwneud o dan y weithdrefn frys, a 30 Mawrth oedd dyddiad eu gwneud.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, y mae rhai sylwadau cyffredinol y bernir y dylid eu cofnodi.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**
Yn nhrydydd paragraff y testun Cymraeg gellid mynegi "gyfrwng y rheoliadau" yn well efallai fel "gyfrwng rheoliadau". h.y. eu rhoi drwy gyfrwng rheoliadau yn hytrach na'u rhoi drwy gyfrwng y rheoliadau.

Ym mharagraff olaf y testun Cymraeg, mae "Cenedlaethol" wedi'i gamsillafu.

**Y Rhagymadrodd**
Mae'r rhagymadrodd i'r rheoliadau'n enwi adran 17 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 fel un o'r pwerau galluogi.

Mae adran 17 yn galluogi'r Cynulliad i roi cyfarwyddiadau i Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS. Yn rhinwedd adran 18, gall y per hwn i roi cyfarwyddyd gael ei arfer mewn rheoliadau.

Er hynny, byddai wedi bod yn fwy boddhaol pe bai'r rheoliadau wedi nodi ymhle y caiff y per hwn i roi cyfarwyddyd ei arfer drwy gyfeiriad penodol ym mhob enghraifft o roi cyfarwyddyd.

**Y Rhagymadrodd – Y testun Cymraeg**
Mae'r cyfeiriad at wneud y Rheoliadau – "yn gwneud y Rheoliadau canlynol" – yn ymddangos ar ddechrau'r rhagymadrodd ond yn cael ei ailadrodd hefyd ar y diwedd.

**"Corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol"**
Er bod y term hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson yn y rheoliadau nid yw'n cael ei ddiffinio. Yn y ddeddfwriaeth alluogi diffinnir "NHS body" yn adran 20 o Ddeddf 1999 mewn perthynas â'r defnydd ohono yn yr adran honno. Felly, gan fod sylwedd darpariaethau'r rheoliadau yn cael ei wneud o dan adran 20, tybir y bwriedir i "gorff Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ddwyn yr un ystyr ag "NHS body" yn adran 20.

Gan dderbyn, er hynny, bod y ddau derm a ddiffinnir ar y ffurf wahanol hon, a chan dderbyn bod y diffiniad yn y Ddeddf yn gyfyngedig i adran 20, byddai wedi bod yn fwy boddhaol pe bai'r rheoliadau wedi cynnwys eu diffiniad eu hunain yn rheoliad 1(2).

**Rheoliad 2(3)**
Deellir nad oedd rheoliad 2, fel y'i drafftiwyd i ddechrau, yn cynnwys y ddarpariaeth a geir bellach ym mharagraff (2). Felly, pan oedd y paragraff (3) presennol yn baragraff (2), gellid gweld yn glir fod y cyfeiriad at "y flwyddyn honno" yn ymwneud â'r flwyddyn y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Ond gyda pharagraff (2) yn cael ei gynnwys, fodd bynnag, ni ddeellir y cyfeiriad at "y flwyddyn honno" mor hawdd fel un sy'n ymwneud â'r flwyddyn y cyfeirir ati ym mharagraff (1).

**Rheoliad 2(5)**
Mewn perthynas ag is-baragraff (a) mae'n briodol darparu y "gall" y rhaglen gael ei hamrywio gyda chytundeb y Cynulliad. Mewn perthynas â phenderfyniad o dan is-baragraff (b), er hynny, holir ai'r bwriad mewn gwirionedd oedd gosod dyletswydd i amrywio yn hytrach na rhoi per caniatáu.

**Rheoliadau 16(5)(b)(ii), a 17(5)(b)**
Defnyddir y term rhyw-benodol "chairman" yn y mannau hyn.

**Rheoliadau 17(1)(3)(4)**, **18(2)(b) a 19(5)**
Cyfeiria'r darpariaethau hyn at "berson a awdurdodir gan y Comisiwn o dan reoliad 16(1)".

Gan dderbyn bod rheoliad 16(1) yn ymwneud ag awdurdodiadau i fynd i dir ac adeiladau, gellid holi pam nad yw'r cyfeiriadau yn y darpariaethau y cyfeirir atynt uchod (nad ydynt yn ymwneud â mynediad i dir ac adeiladau) ar y ffurf symlach a ddefnyddir yn rheoliad 17(2) – "person a awdurdodir gan y Comisiwn".

**Rheoliadau 18(2) a 19(3)(a)**
Nodir yr arferiad gwahanol yn y testun Cymraeg rhwng "yr wybodaeth" yn rheoliad 18 a "y wybodaeth" yn rheoliad 19.

**Rheoliad 20**
Mae hwn yn gosod terfyn ar arfer y per y darperir ar ei gyfer yn Neddf 1999. Ond nid ymddengys fod hyn o fewn pwerau adran 20(2) o'r Ddeddf honno (paragraff (a), (c) neu (f)). Tybir bod y Comisiwn Archwilio yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon ac nad ydynt yn bryderus yn ei chylch.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01-091

19 Ebrill 2000